**COFNODION O GYFARFOD GYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 19 AWST 2025, AM 7:00 Y.H DRWY ZOOM**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Gwynedd Williams, Philip Roberts, Ann Lawton, Hefin Jones, Beca brown

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Rhys Parry, Berwyn Parry Jones, Richard Robinson, Alan Parry

**CLERC:** Meirion Jones

**Cyfieithydd:** Sioned Elin. Lingo Cyf

**AELDOAU CYHOEDD:** Dr Colin Swatridge (wedi mynegi diddordeb ar ymuno a'r cyngor cymuned)

**1488. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Yn absenoldeb Cadeirydd y Cyngor, sef y Cynghorydd Rhys Parry, Cadeiriwyd i cyfarfod gan Cynghorydd Avril Jones (Is-gadeirydd y Cyngor)

**1489 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1490. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1491. I dderbyn cofnodion cyfarfod 15 Gorffennaf 2025**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1492. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

**Eitem 1484 –** Adroddwyd fod yr asesiad risg o'r fynwent oedd i'w fod i'w gynnal ddechrau Awst wedi ohirio oherwydd ar y diwrnod roedd yr asesiad i gymryd lle, roedd rhybudd tywydd melyn yn bodoli. Bydd yr asesydd yn cadarnhau dyddiad arall yn y dyfodol

**1493. I dderbyn cynrychiolaeth gan Dr Colin Swatridge o Gwm y Glo sydd wedi datgan diddordeb o ymuno a'r cyngor cymuned**

Derbyniwyd cyflawniad gan Dr Colin Swatridge ei fod yn awyddus i ymuno a'r cyngor cymuned. Ymhelaethodd ei fod wedi bod yn cynorthwyo gyda pethau yn Cwm y Glo yn y gorffennol, e.e. codi sbwriel ac ei fod yn awyddus i fod yn rhan o'r gymuned. Cafodd yr aelodau gyfle i holi Dr Swatridge am wahanol faterion.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a diolch i Dr Swatridge am datgan diddordeb mewn ymuno a’r cyngor cymuned.
b) Yn dilyn trafodaeth ar ddiwedd y cyfarfod penderfynwyd cyfethol Dr Swatridge a’r clerc i wneud y trefniadau priodol.

**1494. I ystyried cais sydd wedi dderbyn i symud dynnu cysgodfa bws ger ystâd Bro Rhythallt ar sail fod yn cael ei gamddefnyddio ac yn achosi problemau i drigolion cyfagos.**

Adroddwyd fod y cyngor cymuned ynghyd a Cynghorydd Beca Brown wedi derbyn cwynion am ddefnydd o’r gysgodfa bws sydd ger Bro Rhythallt. Nodwyd fod ymddygiad gwrth gymdeithasol yn y gysgodfa a’r cais ydi i symud y gysgodfa o’r safle am y ffaith nad oes bws yn pasio’r lleoliad yna bellach.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd i dderbyn cadarnhad nad oes bws yn myd heibio’n safle ac hefyd nad oes bwriad yn y dyfodol i ail gychwyn gwasanaeth.

**1495. Os bydd y cyngor yn cymeradwyo eitem 1494 uchod yna ei fod yn cael ei ad-leoli ger safle bws Ysgol Gynradd Llanrug**

Penderfynwyd: Os bydd ymateb Cyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oes bws yn defnyddio’r safle na dim bwriad i’w ddefnyddio yn y dyfodol, yna cysylltu a Cyngor Gwynedd gyda’r bwriad o adleoli’r gysgodfa wrth ymyl yr Ysgol Gynradd

**1496. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1497. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y fynwent fel a ganlyn

Neges wedi'i yrru i'r Eglwys yng Nghymru trwy ei wefan cenedlaethol i ofyn iddynt ddatrys y broblem o ddiffyg arwyddion yn arwain at gamddealltwriaeth gan ymwelwyr ynglŷn â pherchnogaeth fynwent yr eglwys. Disgwylir ymateb yn lleol gan y Parch Naomi Starkey, Arweinydd Gweinidogaeth Bro Eryri.

Ffigyrau diweddaraf gan Pear Technologies o ymwelwyr i’n wefan i ymchwilio'r map a gwybodaeth am y fynwent : yn y tri mis diwethaf cyfartaledd o 38 ymchwiliadau y mis -24 am data,14 leoliadau beddi gan 4 ymchwilydd unigryw. Yn dilyn derbyn negeseuon blinderus unwaith eto ar ôl torri gwair yn y fynwent (12.7.25 a 8.8.25) gofynnir nawr am i'r Cyngor cyfeirio'r mater i'w cyfreithwyr oherwydd natur a chynnwys y negeseuon.

Asesiad risg blynyddol yn y fynwent (4.8.25) wedi ei ohirio oherwydd y tywydd. Disgwyl dyddiad newydd gan yr ICCM.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor i drafod gwaith tymor byr yn y Fynwent (26.8.25 am 6 o'r gloch).

Wedyn, cynhelir cyfarfod arall o'r pwyllgor(dyddiad I'w cadarnhau) . Ar yr agenda'r cyfarfod hwn bydd canlyniad yr asesiad risg, ymgynghoriad blodau plastig a chymwysterau torrwr beddi.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad. Cadarnhawyd i drosglwyddo'r ymddygiad blinderus a sydd yn fygythiol ei natur at ein cyfreithwyr am sylw ac hefyd cyfeirio'r unigolyn at yr Heddlu

**1498. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor am y canlynol

- Fod asesiad risg ar y caeau chwarae wedi gwblhau ac fod y gwaith yn mynd rhagddo i fynd drwy beth sydd angen ei wneud.
- Fod y contractwr methu cael llonydd pan yn gweud gwaith yn y caeau chwarae gan fod yn cael ei ddefnyddio gan blant, felly am gychwyn y gwaith ar ôl i'r ysgol gychwyn.
- Parc Sglefrio – eto gwaith yn mynd i gychwyn ar ôl i'r plant fynd i'r ysgol
- Archebu goleuadau pob lliw ar gyfer coed Nadolig Cwm y Glo a Llanrug
- Trefniadau ar gyfer torch ar gyfer Sul y Cofio mewn lle
- Arwyddion ar gyfer caeau chware angen eu archebu a'i gosod
- Cyfarfod nesaf y pwyllgor am 6:00yh 15fed o Fedi 2025 drwy Zoom

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1499. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond fod cyfarfod i'w gynnal ar 2 o Fedi 2025

**1500. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. [https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search](https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search)**

a) **Rhif y Cais:** C25/0565/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad deulawr i gefn yr eiddo ac adeiladau porth i flaen yr eiddo. Ychwanegu dau ffenestr i edrychiad ochr llawr cyntaf. A two-storey extension to the rear of the property and errection of porch to the front of the property. Add two windows to first floor side elevation.

**Ymgeisydd:** Mr and Ms Jason Evans & Marged Rhys
**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Cyfeiriad:** Eillionwy Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BA
**Cyfeirnod Grid:** 254216.99999999997, 363662.9999999991
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd**: Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:15

Arwyddwyd:

Cadeirydd : Dyddiad: